# CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Cofnodion cyfarfod o’r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Gwener, 14 Tachwedd 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Derek Butler, Hugh Evans, Hugh Jones ac Ian Roberts

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Stuart Davies, Martyn Holland, Rhys Hughes, Win Mullen-James a Carolyn Thomas

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth (CSDd - GW), Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (HS), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth (CSDd - HR), Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir y Fflint (TW), Rheolwr Parciau / Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CBSW - MH), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (CSDd - SP), Uwch Swyddog Cefn Gwlad yr AHNE (DS), Rheolwr Cyllid a Sicrwydd (CSDd - SG), ac Uwch Swyddog Cyllid (CSDd - PO’H)

Cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru (PM)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Bernie Attridge (Cyngor Sir y Fflint).

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 3 PENODI CADEIRYDD Y CYDBWYLLGOR

Cynigwyd y Cynghorydd Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) i’w benodi fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor gan y Cynghorydd Huw Jones. Eiliodd y Cynghorydd Ian Roberts y cynnig. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill a phenodwyd y Cynghorydd Hugh Jones yn gadeirydd.

***PENDERFYNWYD - bod y Cynghorydd Hugh Jones yn cael ei benodi’n gadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2014/15.***

## 4 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYDBWYLLGOR

Cynigwyd y Cynghorydd Huw Jones (Cyngor Sir Ddinbych) fel is-gadeirydd y Cydbwyllgor gan y Cynghorydd Derek Butler; ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Hugh Evans. Heb unrhyw enwebiadau eraill:

***PENDERFYNWYD – bod y Cynghorydd Huw Jones yn cael ei benodi'n is-gadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2014/15.***

## 5 MABWYSIADU CYFANSODDIAD AHNE BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Cyflwynodd Bennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth Cyngor Sir Ddinbych adroddiad (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cydbwyllgor i fabwysiadu cyfansoddiad y Cydbwyllgor (rheolau sefydlog).

Cynghorodd y Pennaeth fod y cyfansoddiad atodol eisoes wedi'i gymeradwyo gan adrannau cyfreithiol y 3 awdurdod a'u tystio gyda sêl pob awdurdod. Amlinellodd rai o rannau allweddol y ddogfen; bod aelodaeth y Cydbwyllgor yn cynnwys aelodau gweithredol pob awdurdod (e.e. Aelodau Cabinet neu'r Bwrdd Gweithredol) a bod gan bob awdurdod ddau aelod, darpariaethau ar gyfer cyfarfod blynyddol a chyfarfodydd bob 4 mis. Byddai lleoliadau'r cyfarfodydd yn cael eu cylchdroi rhwng pob awdurdod. Adroddodd ynglŷn â chworwm a threfniadau pleidleisio fel y dengys y rheolau sefydlog a chadarnhaodd y byddai Sir Ddinbych fel awdurdod arweiniol yr AHNE yn paratoi, cyhoeddi a chylchredeg pecynnau rhaglen ar gyfer pob cyfarfod y Cydbwyllgor, ond byddai'r awdurdod sy'n cynnal y cyfarfod yn cynhyrchu'r cofnodion.

Amlygodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Democratiaeth wall yn y rheolau sefydlog ac y dylai rheol sefydlog 8.6 gyfeirio at reol sefydlog 14 (nid 4) wrth ymdrin â gweithgarwch niwsans.

Cwestiynodd y Cynghorydd Martyn Holland reol sefydlog 13 oedd yn gwahardd datgan anghytundeb. Cynghorodd y Pennaeth fod y ddarpariaeth yn atal cofnodi anghytundeb yn y cofnodion ar ôl cynnal pleidlais. Cadarnhaodd y gellir cofnodi anghytundeb yn y cofnodion fel rhan o'r drafodaeth ac y gellir defnyddio pleidlais wedi'i chofnodi i gofnodi sut y pleidleisiodd bob aelod.

***PENDERFYNWYD bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo'r cyfansoddiad (rheolau sefydlog) sydd ynghlwm yn atodiad 1 (yn amodol ar gywiro rheol sefydlog 8.6).***

## 6 TROSOLWG O GYTUNDEB Y CYDBWYLLGOR

Cyflwynodd Bennaeth y Gyfraith, AD a Democratiaeth adroddiad (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) oedd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r cytundeb cyfreithiol sy'n sylfaen i'r Cydbwyllgor a chyfeiriodd at y pwyntiau canlynol.

- Roedd y cytundeb yn creu'r Cydbwyllgor ac yn sefydlu ei bwerau.
- Roedd y cytundeb yn sefydlu grŵp swyddogion i lunio argymhellion ar gyfeiriad strategol a'r gyllideb, i weithredu'r cynllun rheoli, cynllun gweithredu blynyddol a phenderfyniadau'r cydbwyllgor; byddai'r grŵp yn cynnwys aelodau cyfetholedig o Gyfoeth Naturiol Cymru, swyddogion o'r 3 awdurdod perthnasol a gan bartneriaid eraill.

- Byddai Sir Ddinbych yn darparu arbenigedd ariannol, cymorth cyfreithiol a gweinyddol ar gyfer y Cydbwyllgor a chymorth gyda chofnodion gan yr awdurdod sy'n cynnal cyfarfod y cydbwyllgor.
- Proses ar gyfer ariannu'r Cydbwyllgor i ddiwallu ei amcanion drwy gyllideb graidd sy'n cael ei darparu gan y 3 awdurdod a chyllid grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- Byddai'n cytundeb yn parhau hyd 2019 ac oni bai y caiff ei newid, ei dynnu'n ôl neu ei ddiddymu yna byddai'n parhau am gyfnod arall o 5 mlynedd wedi hynny.
- Gall unrhyw un o'r 3 awdurdod dynnu'n ôl o'r Cydbwyllgor drwy roi dim llai na 18 mis o rybudd i'r awdurdodau eraill a'r Ysgrifennydd (Pennaeth y Gyfraith, AD a Democratiaeth Sir Ddinbych).

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hugh Evans at yr amcanion a nodir ar gyfer y Cydbwyllgor lle y byddai'n ceisio 'dylanwadu' o blaid pwrpas ddynodedig yr AHNE. Adroddodd y Cynghorydd Evans nad oedd yn glir beth oedd ystyr diffiniad yr ymagwedd o ddylanwadu a beth oedd y goblygiadau. Dywedodd ei fod wedi profi effeithiau negyddol o ran gweithgarwch yr AHNE lle yr oedd yn ceisio dylanwadu ar ganlyniadau penderfyniadau ar eiddo a chymunedau tu hwnt i'r AHNE ei hun.

Eglurodd Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Swyddog AHNE) fod yr AHNE yn ddynodiad cenedlaethol ac roedd angen i'r 3 awdurdod ystyried hynny. Adroddodd fod angen Cydbwyllgor i hyrwyddo polisïau a phenderfyniadau oedd yn cadw a gwella harddwch naturiol yr AHNE yn unol â'i bwrpas statudol. Ychwanegodd Bennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democratiaeth fod y cytundeb eisoes wedi'i gymeradwyo gan dimau cyfreithiol y 3 awdurdod ac wedi'i gymeradwyo gan Gabinet neu Fwrdd Gweithredol pob awdurdod.

Cefnogodd y Cynghorydd Stuart Davies y pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Evans, gan ychwanegu ei fod yn byw mewn ardal yr effeithir arni gan weithgareddau'r AHNE ac yn ei farn ef roedd hyn yn cyfyngu'n annheg ar ryddid trigolion a busnesau. Adroddodd y Cynghorydd Hugh Jones y gallai'r Cydbwyllgor weithredu o fewn ei gylch gorchwyl yn unig, ac roedd ganddo brosesau eglur a byddai'n datblygu rhaglen gwaith i'r dyfodol i weithredu arno.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

## 7 CYLLIDEB Y CYDBWYLLGOR 2014 / 15

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid a Sicrwydd Sir Ddinbych adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar gyllidebau refeniw'r AHNE. Adroddodd fod y broses gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cydnabod fod yn rhaid i'r AHNE gael cyllideb i weithredu ac y gallai gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cydbwyllgor yn awr. Adroddodd y Rheolwr Cyllid a Sicrwydd ar y gorwariant bychan a'r tanwariant yn y cyllidebau craidd ac ardal yn y drefn honno a chynghorodd fod y gyllideb ar gyfer 2014 /15 yn bendant ond rhybuddiodd efallai y bydd anawsterau yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Wrth amlygu bod yn rhaid i'r Cydbwyllgor gytuno ar gyllideb bob blwyddyn a bod gofyn i'r 3 awdurdod ddarparu cyfraniad priodol, cynghorodd y Cynghorydd Hugh

Jones y byddai angen i'r Cydbwyllgor gyfarfod i drafod drafft y gyllideb mewn pryd er mwyn cyflwyno argymhellion ynglŷn â chyllid i'r awdurdodau.

Trafododd yr Aelodau'r mater o sicrhau fod y gyllideb yn cael ei rhannu'n deg rhwng yr awdurdodau. Mewn ymateb eglurwyd fod y rhan fwyaf o'r AHNE yn Sir Ddinbych ac felly roedd rhan fwyaf y gwaith a'r gwariant yn Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a bod y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2014/15 yn cael ei chymeradwyo'n ffurfiol.***

**8 PENODI PARTNERIAETH A CHYRFF CYSYLLTIOL AR GYFER ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cyflwynodd Swyddog yr AHNE adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynghylch cadarnhau trefniadau llywodraethu ar gyfer cytundeb cyfreithiol y Cydbwyllgor. Fe gynghorodd fod Partneriaeth yr AHNE yn cael ei thrawsnewid fel rhan o'r cytundeb gyfreithiol gan ddisodli'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Dros Dro gyda Phartneriaeth yr AHNE (Grŵp Budd-ddeiliaid) a fforymau perthnasol.

Adroddodd Swyddog yr AHNE mai cynhyrchu cynllun rheoli oedd prif faes gwaith y Bartneriaeth a chyfeiriodd at y rhestr o aelodau fyddai'n ffurfio Partneriaeth yr AHNE fel y dengys yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD bod y Cydbwyllgor yn:-***

***(i) Cymeradwyo penodiad is-grŵp yn cynnwys y Cynghorwyr Derek Butler, Huw Jones ac Ian Roberts i benodi Partneriaeth yr AHNE (yn amodol ar gadarnhad ffurfiol aelodaeth yr is-grŵp drwy weithdrefnau penderfyniadau dirprwyol pob awdurdod);***

***(ii) Byddai dyddiad ar gyfer cyfarfod Fforwm yr AHNE a Chyngor Tref a Chymuned yn cael ei gadarnhau ar ôl ymgynghori gyda'r cyfranogwyr; gyda gwahoddiad i aelodau etholedig y 3 awdurdod.***

**9 DERBYN DOGFENNAU O'R RHAGLEN WAITH PRESENNOL 2014 / 15**

Cyflwynodd Swyddog yr AHNE adroddiad ar lafar a chyflwyno Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynllun Gweithredu. Cynhyrchwyd y Strategaeth gan y Cwmni Twristiaeth ar ôl cynnal gweithdai ymgynghori er mwyn deall y sefyllfa i ddatblygu twristiaeth gynaliadwy.

Byddai digwyddiad cyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r Strategaeth yn cael ei gynnal yng Nghorwen yr wythnos ganlynol.

Dosbarthodd Swyddog yr AHNE rhaglen waith newid hinsawdd ac egluro fod y ddogfen yn llunio awgrymiadau sut y gallai ffermydd, trigolion a busnesau o fewn yr AHNE addasu i liniaru effeithiau newid hinsawdd. Cynghorwyd yr Aelodau fod gan y rhaglen ddogfennau cysylltiol gan gynnwys un ar gyfer plant oedd yn ceisio ymdrin â'r bwlch mewn darpariaeth a gobeithir y byddai'n denu teuluoedd ac eraill sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â newid hinsawdd i'r AHNE.

Holodd y Cynghorydd Hugh Jones os oedd polisi dosbarthu ar gyfer y dogfennau hyn, a chadarnhawyd fod rhwydwaith ddosbarthu dda yn Sir Ddinbych, ond nad oedd pwyntiau dosbarthu, megis canolfannau croeso, yn Sir y Fflint a Wrecsam wedi'u cysylltu cystal.

***PENDERFYNWYD bod Strategaeth Gyfathrebu, gan gynnwys monitro effeithiolrwydd cyfathrebu, yn cael eu hychwanegu at raglen gwaith i'r dyfodol y Cydbwyllgor.***

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Swyddog yr AHNE adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar ddatblygiad rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y Cydbwyllgor er mwyn ystyried blaenoriaethau a meysydd gwaith y pwyllgor ar gyfer y dyfodol. Ystyriodd yr Aelodau'r materion canlynol:

- Roedd Strategaeth Edeyrnion yn cael ei datblygu gan bartneriaid yn ne'r AHNE
- Bwriad y Strategaeth Estyn Allan a Gwirfoddolwyr oedd cynyddu nifer y gwirfoddolwyr a gwneud y gorau o'u cyfraniad at amcanion yr AHNE.

Trafododd yr Aelodau gynhyrchiant canllawiau cynllunio atodol ar gyfer yr AHNE, ac roedd y Cynghorydd Hugh Evans yn pryderu fod perygl y byddai'r AHNE yn niweidio ei enw da wrth geisio dylanwadu ar ganlyniadau ceisiadau cynllunio a dylid bod yn ofalus yn hyn o beth. Roedd y drafodaeth a ddilynodd yn cynnwys:

- Pryderon y gallai costau ychwanegol i gydymffurfio â chanllawiau'r AHNE atal trigolion a busnesau rhag cyflwyno cais, gan arwain at ddiffyg datblygiad o fewn yr AHNE.
- Dadleuodd y Cynghorydd Carolyn Thomas mai bwriad y canllawiau oedd darparu cyngor defnyddiol i'w ystyried cyn cyflwyno cais cynllunio.
- Rôl yr AHNE i hyrwyddo ei amcanion a rôl yr awdurdodau cynllunio i benderfynu ar deilyngdod a safbwyntiau'r rhai sy'n hyrwyddo neu'n gwrthwynebu'r ceisiadau cynllunio. Dywedodd y Cynghorydd Derek Butler mai rôl y Cydbwyllgor oedd eirioli amcanion yr AHNE ac y byddai cyrff ac unigolion eraill yn gwneud yr un fath o ran eu hamcanion a'u cylch gwaith.

***PENDERFYNWYD:***
***(i) Bod adolygiad o arian a chyllid yr AHNE yn cael ei ychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol; a***
***(ii) Chymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.***

## 11 ADOLYGIAD YMGYNGHOROL CYFREDOL LLYWODRAETH CYMRU O DIRWEDDAU DYNODEDIG YNG NGHYMRU

Darparodd Swyddog yr AHNE adroddiad ar lafar ynglŷn â'r adolygiad fyddai'n archwilio dynodiadau tirwedd a phwrpas a buddion dynodi tirweddau Cymru dan un math o ddynodiad. Cynghorwyd yr Aelodau y byddai'r adolygiad hefyd yn ystyried trefniadau llywodraethu'r tirweddau dynodedig ac yn ystyried Mesur Cynllunio

(Cymru) o ran trefniadau ar gyfer cynllunio yn y dyfodol mewn Parciau Cenedlaethol.

Mewn ymateb i gwestiynau, cynghorwyd yr aelodau mai prif amcan adolygiad Llywodraeth Cymru oedd y trefniadau llywodraethu. Trafodwyd y posibilrwydd o osod dynodiad tebyg i barc cenedlaethol ar yr AHNE ynghyd â'r posibilrwydd y gallai llywodraethu parciau cenedlaethol ddychwelyd i fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol unwaith eto.

Cynghorwyd yr Aelodau y gallai'r Aelodau gyfrannu at yr ymgynghoriad naill ai fel Cydbwyllgor neu fel unigolion ac roedd y Cydbwyllgor Gweithredu Dros Dro eisoes wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

Roedd y Cynghorydd Hugh Jones o'r farn nad oedd gan y Cydbwyllgor ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r adolygiad i lunio ymateb i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

## 12 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Adroddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cydbwyllgor yn nodi y dylid cynnal cyfarfodydd 2015 ym mis Ionawr, Mehefin a Thachwedd. Cynghorodd yr Aelodau y byddai'n well ganddynt pe bai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar foreau Gwener lle bo modd.

Gan fod y cadeirydd newydd yn Gynghorydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cytunwyd y dylid ystyried Wrecsam fel lleoliad ar gyfer cyfarfod mis Ionawr y Cydbwyllgor.

***PENDERFYNWYD bod cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn cael eu trefnu ar gyfer mis Ionawr, Mehefin a Thachwedd 2015.***